

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe: Asesiad Llesiant Lleol 2022

Atodiad 1: Ymgysylltu ac arolygu

Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen atodiad hon yn amlinellu ein strategaeth gyffredinol ynghylch ymgysylltu ar gyfer Asesiad 2022, manylion yr arolwg lles cyhoeddus (Hydref 2021), a'n dadansoddiad o'r canlyniadau allweddol. Mae copi o gwestiynau gwreiddiol yr arolwg hefyd wedi'i gynnwys ar ddiwedd yr Atodiad hwn.

Strategaeth

Mae'r Asesiad wedi'i seilio'n bennaf ar dystiolaeth ystadegol ac ymchwil ond mae cyd-destun o brofiad bywyd yn helpu i ddarparu asesiad cytbwys ac ystyrlon. Nod y dull hwn hefyd yw ceisio sicrhau bod bylchau'n cael eu nodi, bod lleisiau nas clywir yn aml yn cael eu hystyried a bod safbwyntiau dinasyddion yn cael eu cynnwys. Byddai hyn yn ategu'r manylion technegol mewn pynciau a nodwyd gyda phrofiadau pobl, gan adlewyrchu realiti ar lawr gwlad.

Mae'r Asesiad yn cynnwys *dadansoddiad sefyllfaol* yn bennaf, gyda'r elfennau dadansoddi ymateb yn fwy amlwg i'w datblygu ar gyfer y Cynllun Lles Lleol erbyn mis Mai 2023, yn dilyn cwblhau'r asesiad. Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru hefyd wedi nodi y dylai'r Asesiad ganolbwyntio ar ymgysylltu ystyrlon, a dylai proses y Cynllun Lles fod yn fwy seiliedig ar gyfranogiad ac yn gyfle cydgynhyrchiol.

Arolwg Ymgysylltu a Lles

Ar gyfer yr asesiad, cynlluniwyd dull graddol o ymgysylltu. Ar gyfer Cam 1, cynhaliwyd arolwg ar-lein cychwynnol rhwng 7 Medi a 1 Tachwedd 2021 – mae'r cwestiynau yn Atodiad A i'r Atodiad hwn. Er bod yr arolwg yn electronig, hyrwyddwyd opsiynau papur hefyd i gefnogi cynhwysiad digidol.

Ceisiodd yr arolwg sicrhau bod ein dealltwriaeth a'n diffiniadau o'r pedwar dimensiwn lles yn briodol, bod y pynciau a ystyriwyd yn cwmpasu meysydd o ddi-ddordeb a godwyd gan randdeiliaid, a bod bylchau'n cael eu nodi. Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr nodi pa agweddau ar les (neu bynciau) o fewn pob dimensiwn oedd yn arbennig o bwysig iddynt a beth oedd wedi'i golli (drwy opsiwn nodi rhywbeth 'arall'). O dan bob dimensiwn, gwahoddyd pobl hefyd i adrodd eu stori neu eu profiad ynghylch pam yr oedd agweddau penodol ar les yn bwysig iddynt.

Roedd Cam 2 ein dull gweithredu (rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2021) yn cynnwys partneriaid yn cael eu hannog i ymgysylltu ag unigolion a grwpiau, gan ddefnyddio digwyddiadau neu brosesau sy'n bodoli eisoes lle bo hynny'n bosib. Cefnogwyd ymgysylltu wedi'i hwyluso gan offer cyflwyno 'haws eu darllen' gyda phe cyn cymorth a ddarparwyd i gefnogi partneriaid – i helpu i wneud y mwyaf o ymgysylltu cyffredinol ac adlewyrchu amrywiaeth ein cymuned gymaint â phosib.

Cynhaliwyd y gweithgarwch hwn unwaith eto ar sail cwestiynau'r arolwg ac anogaeth i bobl rannu eu straeon ynghylch pam mae lles yn bwysig iddynt. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, roedd effeithiau pandemig COVID-19 wedi effeithio'n arbennig ar Abertawe, sydd wedi rhoi llawer o wasanaethau lleol dan bwysau eithriadol. Yn ogystal, mae gweithio gartref a mesurau i leihau cyswllt â'r cyhoedd wedi bod ar waith mewn llawer o sefydliadau. Felly, cyfyngwyd yn ddifrifol ar gyfleoedd ymgysylltu uniongyrchol, wyneb yn wyneb.

Fodd bynnag, er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, cafwyd enghreifftiau llwyddiannus o weithgarwch ymgysylltu. Yn ystod hydref 2021, hyrwyddwyd yr arolwg gan Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (SCVS) mewn digwyddiadau 'Posibiliadau ar gyfer Pobl'. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu dros dro gan Ganolfan Amgylcheddol Abertawe a chyda chefnogaeth gwirfoddolwyr yn ystod yr 'Wythnos Groeso'/'Ffair y Glas' i fyfyrwyr. Hyrwyddwyd yr arolwg hefyd yng nghylchlythyr masnach twristiaeth y cyngor. Mae gwybodaeth a gasglwyd o'r digwyddiadau hyn wedi'i chynnwys yn y dadansoddiad hwn.


Roedd cam 3 ein hymgysylltiad (Chwefror i Fawrth 2022) yn cynnwys ymgynghoriad ffurfiol ar ein hasesiad drafft. Dyma ein modd i wirio gyda rhanddeiliaid (cyhoeddus a sefydliadau) fod yr Asesiad mor gywir â phosib, ei fod yn cynnwys y materion pwysig ac yn nodi unrhyw fylchau neu wallau. Bydd yr wybodaeth hon hefyd yn cael ei chynnwys yn ein dadansoddiad cyffredinol yn ogystal â chreu fersiwn well o'r Asesiad Lles Lleol.

Canlyniadau'r arolwg

Derbyniodd yr arolwg lles dros 330 o ymatebion erbyn mis Tachwedd 2021. Roedd y rhan fwyaf (oddeutu 84%) o'r ymatebion a gafwyd gan aelodau o'r cyhoedd, ac roedd 12% pellach hefyd wedi'u nodi fel gweithwyr y cyngor.

Mewn ymateb i'r cwestiwn, 'Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod lles yn Abertawe yn debygol o wella yn y dyfodol?' (Ffigur 1), roedd 40% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad, yn wahanol i 33% a oedd yn cytuno bod lles yn Abertawe yn debygol o wella yn y dyfodol (nid oedd 27% yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod). Gall y besmistiaeth hon adlewyrchu canfyddiadau ehangach fod lles personol a hapusrwydd canfyddedig wedi dirywio'n sylweddol yn Abertawe (a'r DU yn ehangach) ers y pandemig (Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (SYG)).

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na ellir dweud bod y canfyddiadau'n gynrychioliadol yn ystadegol o'r boblogaeth ehangach, a dylid trin unrhyw ganfyddiadau meintiol o'r arolwg fel rhai sy'n dangos yr hyn y gallai poblogaeth ehangach Abertawe fod yn ei feddwl yn unig.



Ffigur 1: Lles cyffredinol yn Abertawe


Roedd pob un o bedair prif adran holiadur yr arolwg yn dilyn ymagwedd debyg. Yn gyntaf, gofynnwyd i ymatebwyr ddewis pa bynciau yr oeddent yn teimlo eu bod yn arbennig o bwysig i'r llinyn neu'r dimensiwn hwnnw o les, o restr ddiffiniedig o bynciau, ond gydag opsiwn 'Arall (ysgrifennu i mewn)' hefyd ar gael. Yn ail, gwahoddwyd yr ymatebwyr i adrodd eu stori neu eu profiad ynghylch pam roedd yr agwedd honno ar les yn bwysig iddyn nhw.

Mae dyfyniadau dethol o'r ymatebion ansoddol a dderbyniwyd wedi'u cynnwys ym mhenodau fersiwn derfynol y brif ddogfen asesu dan adrannau pwnc perthnasol; y nod yw adlewyrchu barn y cyhoedd lleol a chryfhau elfennau 'profiad byw' yr asesiad. Yn ogystal, cynhaliwyd dadansoddiad pellach o'r holl ymatebion gyda phob sylw ysgrifenedig wedi'i gategoreiddio yn ôl un neu ragor o themâu neu bynciau penodol, o fewn a thu allan i'r dimensiwn hwnnw – gan ddangos felly lle gall ymatebion adlewyrchu agweddau lluosog ar les. Yn anochel, mae'r dadansoddiad a wnaed yma yn cynnwys rhywfaint o oddrychedd.

Lles Cymdeithasol

Mae Ffigur 2 yn dangos yr ymatebion o gwestiwn 6 a oedd yn gofyn i ymatebwyr nodi meysydd pwnc yr oeddent yn credu eu bod yn arbennig o bwysig mewn perthynas â lles cymdeithasol Abertawe. Ystyriwyd mai'r pynciau 'iechyd meddwl' ac 'iechyd corfforol' oedd y pwysicaf gan ymatebwyr, ac yna 'troseddu a diogelwch'.

Roedd meysydd pwnc 'eraill' yr oedd ymatebwyr yn teimlo eu bod yn bwysig mewn perthynas â lles cymdeithasol yn cynnwys cymunedau cefnogol a chydlynol, yr amgylchedd a phryderon ynghylch camddefnyddio sylweddau. Roedd pynciau eraill a grybwyllwyd gan ymatebwyr yn cynnwys anabledd, argaeledd gofal iechyd a phryderon am wahaniaethu a thrais yn y cartref. Awgrymodd nifer o ymatebwyr hefyd fod yr holl feysydd pwnc a nodwyd yn bwysig mewn perthynas â lles cymdeithasol.



Ffigur 2: Meysydd pwnc mewn Lles Cymdeithasol

Yn dilyn dadansoddiad pellach o ymatebion i'r cwestiwn stori/profiad yn adran lles cymdeithasol yr arolwg (C7: *Gan feddwl am yr UN maes lles cymdeithasol sydd bwysicaf i chi, rhowch wybod i ni am eich hanes neu'ch profiad o ran pam y mae hyn o bwys?*) roedd y themâu mwyaf cyffredin a grybwyllir yn fras mewn perthynas â'r pynciau canlynol (o fewn y dimensiwn cymdeithasol):

- Iechyd Meddwl
- Iechyd corfforol
- Blynyddoedd cynnar
- Tai
- Mynediad at wasanaethau, cyfleoedd ac adnoddau angenrheidiol
- Unigedd ac unigrwydd
- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Camddefnyddio sylweddau
- Troseddau a gofnodwyd
- Heneiddio'n dda


Wrth edrych ar gydberthyniadau eang rhwng ymatebion i gwestiwn 7 a phynciau o fewn y tri dimensiwn arall o les yn yr asesiad, roedd y rhai a nodwyd amlaf mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r canlynol:

- Cyfranogiad cymunedol (dimensiwn diwylliannol)
- Safonau byw da (dimensiwn economaidd)
- Chwaraeon ac iechyd (dimensiwn diwylliannol).

Lles Economaidd

Mae Ffigur 3 yn nodi meysydd pwnc yr oedd ymatebwyr o'r farn eu bod yn arbennig o bwysig mewn perthynas â lles economaidd Abertawe. Ystyriwyd materion yn ymwneud ag incwm a chyflogaeth o bwysigrwydd allweddol ac yna materion sgiliau a thrafnidiaeth. Materion 'eraill' a godwyd y teimlwyd eu bod yn bwysig i les economaidd oedd glanweithdra, menter gymdeithasol, cydbwysedd gwaith/bywyd a modelau economaidd amgen, datblygu sgiliau bywyd, manwerthu a thwristiaeth, argaeledd gofal plant, mesurau gorfodi COVID-19 ac effeithiau 5G/di-wifr ar les.

Dangosodd yr ymatebwyr eu bod yn deall pwysigrwydd dull integredig, gan godi materion a oedd yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd a'r economi gylchol, ystyriaethau gofal cymdeithasol a materion diwylliannol a chymunedol a oedd yn ymwneud â chydlyniant.



Ffigur 3: Meysydd pwnc mewn Lles Economaidd

Mae dadansoddiad pellach o ymatebion i'r cwestiwn stori/profiad yn adran lles economaidd yr arolwg yn dangos bod y themâu mwyaf cyffredin a grybwyllwyd yn yr ymatebion hyn yn ymwneud yn fras â'r pynciau canlynol (yn y dimensiwn economaidd):

- Lleoliad busnes Abertawe
- Isadeiledd economaidd Abertawe
- Safonau byw da

Wrth edrych ar gydberthyniadau eang rhwng ymatebion i gwestiwn 5 a phynciau o fewn y tri dimensiwn arall o les yn yr asesiad, roedd y rhai a nodwyd amlaf mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r canlynol:


- Trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol (dimensiwn amgylcheddol)
- Incwm islaw safonau gofynnol (dimensiwn cymdeithasol)

- Mynediad at wasanaethau, cyfleoedd ac adnoddau angenrheidiol (dimensiwn cymdeithasol).

Lles amgylcheddol

Mae Ffigur 4 yn dangos yr ymatebion o Gwestiwn 9 a oedd yn gofyn i ymatebwyr nodi meysydd pwnc yr oeddent yn credu eu bod yn arbennig o bwysig mewn perthynas â lles amgylcheddol Abertawe. Nododd yr ymatebwyr bwysigrwydd yr holl bynciau gyda 'gwastraff ac ailgylchu' a 'natur' y rhai mwyaf cyffredin.

Roedd pynciau 'eraill' yr oedd ymatebwyr yn teimlo eu bod yn bwysig mewn perthynas â lles amgylcheddol yn cynnwys trafniadaeth gynaliadwy a theithio llesol, manau gwyrdd, glendid manau cyhoeddus a phryderon am sŵn. Nododd nifer o ymatebwyr hefyd fod pob un o'r meysydd pwnc yn bwysig o ran lles amgylcheddol.



Ffigur 4: Meysydd pwnc mewn Lles Amgylcheddol

Mae dadansoddiad pellach o ymatebion i'r cwestiwn stori/profiad yn adran lles amgylcheddol yr arolwg yn dangos bod y themâu mwyaf cyffredin a grybwyllwyd yn yr ymatebion hyn yn ymwneud yn fras â'r pynciau canlynol (yn y dimensiwn amgylcheddol):

- Rheoli Gwastraff Cynaliadwy
- Rheoli isadeiledd gwyrdd a chreu lleoedd
- Newid yn yr hinsawdd
- Ansawdd aer
- Cynhyrchu a defnyddio ynni
- Bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau

Wrth edrych ar gydberthyniadau eang rhwng ymatebion i gwestiwn 10 a phynciau o fewn y tri dimensiwn arall o les yn yr asesiad, roedd y rhai a nodwyd amlaf mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r canlynol:

- Asedau diwylliannol (dimensiwn diwylliannol)
- Iechyd meddwl (dimensiwn cymdeithasol)
- Iechyd corfforol (dimensiwn cymdeithasol).

Arolygon atodol

Cynhaliwyd arolygon uniongyrchol wyneb yn wyneb yn seiliedig ar y dull hwn yn ystod 'Wythnos Groeso' / 'Ffair Glas' i fyfyrwyr yn hydref 2021, drwy ddigwyddiadau dros dro yn y prifysgolion a chanolfan siopa'r Cwadrant. Cynhaliwyd y digwyddiadau gan Ganolfan Amgylcheddol Abertawe ac fe'u cefnogwyd gan wirfoddolwyr. Roedd yr arolwg hwn yn gofyn i'r ymatebwyr *'Gan feddwl am yr UN maes lles amgylcheddol sydd bwysicaf i chi, rhowch wybod i ni am eich hanes neu'ch profiad o ran pam y mae hyn o bwys?'*

Mae gwybodaeth a gasglwyd o'r arolygon hyn wedi'i chyfuno mewn dadansoddiad ar wahân. Wrth ystyried yr ymatebion mewn perthynas â phynciau a nodwyd yn nimensiwn amgylcheddol yr asesiad o les, roedd y themâu mwyaf cyffredin a grybwyllwyd yn yr ymatebion hyn yn ymwneud yn fras â'r pynciau canlynol:

- Rheoli Gwastraff Cynaliadwy
- Bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau
- Adnoddau dŵr
- Ansawdd aer
- Newid yn yr hinsawdd
- Rheoli isadeiledd gwyrdd a chreu lleoedd
- Trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol

Wrth edrych ar gydberthyniadau eang rhwng ymatebion yr arolwg hwn a phynciau o fewn y tri dimensiwn arall o les yn yr asesiad, roedd y rhai a nodwyd amlaf mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r canlynol:

- Iechyd meddwl (dimensiwn cymdeithasol)
- Asedau diwylliannol (dimensiwn diwylliannol).


Roedd yr arolwg hefyd wedi gofyn y cwestiwn *'Dyma restr o ambell faes pwnc sy'n ymwneud â lles economaidd Abertawe. Ticiwch unrhyw un o'r meysydd sy'n arbennig o bwysig yn eich barn chi'*. Yn debyg i'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn y prif arolwg lles, nododd nifer o ymatebwyr fod pob un o'r meysydd pwnc yn bwysig mewn perthynas â lles amgylcheddol, a 'gwastraff ac ailgylchu', 'natur' a 'newid hinsawdd' oedd y pynciau a ddewiswyd amlaf.

Lles diwylliannol

Mae Ffigur 5 yn dangos yr ymatebion o Gwestiwn 11 a oedd yn gofyn i ymatebwyr nodi meysydd pwnc yr oeddent yn credu eu bod yn arbennig o bwysig mewn perthynas â lles diwylliannol Abertawe. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod 'asedau diwylliannol' ynghyd â

'chyfranogiad cymunedol a gwirfoddoli' yn allweddol bwysig, gyda'r 'celfyddydau a threftadaeth' yn dilyn yn agos.

Roedd meysydd pwnc 'eraill' ychwanegol yr oedd ymatebwyr yn teimlo eu bod yn bwysig mewn perthynas â lles diwylliannol yn cynnwys hygyrchedd asedau a digwyddiadau diwylliannol yn y gymuned. Nododd nifer o ymatebwyr hefyd fod pob un o'r meysydd pwnc yn bwysig o ran lles diwylliannol.



Ffigur 5: Meysydd pwnc mewn Lles Diwylliannol

Mae dadansoddiad pellach o ymatebion i'r cwestiwn stori/profiad yn adran lles diwylliannol yr arolwg yn dangos bod y themâu mwyaf cyffredin a grybwyllwyd yn yr ymatebion hyn yn ymwneud yn fras â'r pynciau canlynol (yn y dimensiwn diwylliannol):

- Y celfyddydau, diwylliant a thwristiaeth
- Cyfranogiad y gymuned
- Y Gymraeg
- Asedau diwylliannol

Wrth edrych ar gydberthyniadau eang rhwng ymatebion i gwestiwn 12 a phynciau o fewn y tri dimensiwn arall o les yn yr asesiad, roedd y rhai a nodwyd amlaf mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r canlynol:

- Cydlyniant cymunedol (dimensiwn cymdeithasol)
- Safonau byw da (dimensiwn economaidd)
- Rheoli isadeiledd gwyrdd a chreu lleoedd (dimensiwn amgylcheddol)
- Unigedd ac unigrwydd (dimensiwn cymdeithasol).

Atodiad A: AROLWG LLES, Medi 2021

Os oes angen yr arolwg hwn arnoch mewn fformat arall e.e. print bras, ebostiwch BGCabertawe@abertawe.gov.uk

ASESIAD LLES BGC ABERTAWE 2022

Partneriaeth o wasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio ar y cyd â busnesau, grwpiau cymunedol a gwirfoddol a dinasyddion i wella lles Abertawe yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe. Mae hyn yn golygu gwneud

'Abertawe'n lle gwell i bobl ac ar gyfer y blaned, yn awr ac yn y dyfodol.'

Mae Aseiad o Les Lleol yn dod â thystiolaeth ynghyd am faterion sy'n effeithio ar ansawdd bywyd yn Abertawe. Defnyddir yr wybodaeth hon i ddatblygu Cynllun Lles Lleol ac amcanion lles sy'n hybu cydweithredu er mwyn mynd i'r afael â heriau yn Abertawe. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dylanwadu ar benderfyniadau a blaenoriaethau partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn 2017, cyhoeddodd BGC Abertawe ei Aseiad o Les Lleol cyntaf, y gellir ei ddarllen yma. Ei nod oedd ennill dealltwriaeth gytbwys o ansawdd bywyd yn Abertawe a sut y gallwn ei wella. Yn awr rydym yn bwriadu diweddarau ac adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth bwysig hon. Mae ffeithiau ac ystadegau'n bwysig ond mae hefyd angen i ni ddeall sut beth yw bywyd i bobl yn Abertawe.

Rydym am ddeall yr hyn sy'n bwysig i unigolion yn Abertawe heddiw a'r hyn y mae'n ei olygu i'n heconomi, ein cymdeithas, ein hamgylchedd a'n diwylliant. Mae'r arolwg hwn yn gofyn i bobl Abertawe ein helpu i ddeall y pethau sydd o'r pwys pennaf iddyn nhw a'u cymuned. Drwy rannu eich profiadau a'ch straeon, gallwch ein helpu i ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf yn Abertawe a sut i'w wella..

C1 Ydych chi'n...

- Aelod o'r cyhoedd
- Gweithio i'r cyngor
- Aelod etholedig
- Partner y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Sefydliad trydydd sector/sefydliad partner (nodwch p'un)
- Sefydliad sector preifat/sefydliad partner (nodwch p'un)
- Arall (nodwch)

C2 Côt post:

Mae lles yn ymwneud ag ansawdd bywyd pobl, a sut y mae hyn yn gysylltiedig â'r amgylchedd rydym yn byw ynddo, yr economi rydym yn gweithio ynddi, y gymdeithas rydym yn ei mwynhau a'r diwylliant rydym yn ei rannu.

Rydym am ddeall sut rydych chi'n teimlo am les eich cymuned a'r hyn sydd o'r pwys pennaf i chi o ran lles amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn Abertawe.

C3 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod lles yn Abertawe'n debygol o wella yn y dyfodol?

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i gytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Tueddu i anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

EIN HECONOMI A'N LLES

Mae lles economaidd Abertawe'n ymwneud â sut rydym yn cynhyrchu ffyniant drwy fentrau a gweithgarwch nid er elw a sector cyhoeddus. Yr isadeiledd a'r drafnidiaeth sy'n ein cefnogi a sut rydym yn addysgu a hyfforddi pobl fel y gallant gael mynediad at waith da a diogelwch ariannol drwy gydol eu bywydau.

C4 Dyma restr o ambell faes pwnc sy'n ymwneud â lles economaidd Abertawe. Ticiwch unrhyw un o'r meysydd sy'n arbennig o bwysig yn eich barn chi:

- Cyfleoedd cyflogaeth da
- Incwm ac enillion digonol
- Busnes a menter
- Cefnogaeth i fusnesau dyfu a datblygu
- Cyfleoedd dysgu, sgiliau a chymwysterau
- Isadeiledd e.e. adeiladau, ffyrdd
- Isadeiledd digidol
- Trafnidiaeth a theithio
- Arall (nodwch)

C5 Gan feddwl am yr UN faes lles economaidd sydd bwysicaf i chi, rhowch wybod i ni am eich hanes neu'ch profiad o ran pam y mae hyn o bwysig?

EIN CYMDEITHAS A'N LLES

Mae lles cymdeithasol Abertawe'n canolbwyntio ar iechyd meddyliol a chorfforol pobl a sut rydym yn gofalu am ein gilydd. Pa mor ddiogel, cysylltiedig a chyfforddus rydym yn teimlo yn ein cymunedau ac a oes gennym annibyniaeth, cydraddoldeb a pharch.

C6 Dyma restr o ambell faes pwnc sy'n ymwneud â lles cymdeithasol Abertawe. Ticiwch unrhyw un o'r meysydd sy'n arbennig o bwysig yn eich barn chi:

- Iechyd corfforol
- Iechyd meddwl
- Blynyddoedd cynnar
- Plant a phobl ifanc
- Heneiddio'n dda
- Unigrwydd
- Trosedd a diogelwch
- Gofal cymdeithasol
- Tai
- Tlodi
- Arall (nodwch)

C7 Gan feddwl am yr UN faes lles cymdeithasol sydd bwysicaf i chi, rhowch wybod i ni am eich hanes neu'ch profiad o ran pam y mae hyn o bwys?

Mae angen i bob rhanbarth yng Nghymru gynnal Asesiad o Anghenion Poblogaeth. Nod yr asesiad yw casglu gwybodaeth a barn am faterion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol i helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol a gwella gwasanaethau. Bydd ymatebion i'r cwestiwn canlynol yn ddefnyddiol iawn wrth helpu i lunio'r asesiad ar gyfer ein rhanbarth.

C8 Ydych chi'n defnyddio gwasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol? Neu ydych chi'n gofalu am rywun sy'n eu defnyddio? Os felly, rhowch wybod i ni am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellir ei wella yn eich barn chi.

EIN HAMGYLCHEDD A'N LLES

Mae lles amgylcheddol Abertawe'n canolbwyntio ar sut mae Abertawe'n effeithio ar natur, newid yn yr hinsawdd a llygredd, a'r effaith y maent yn ei chael ar Abertawe hefyd. Yn ogystal â sut rydym yn defnyddio adnoddau'r blaned, yn cynhyrchu ac yn defnyddio ynni ac yn gofalu am y mannau naturiol ac adeiledig rydym yn byw ynddynt.

C9 Dyma restr o ambell faes pwnc sy'n ymwneud â lles amgylcheddol Abertawe. Ticiwch unrhyw un o'r meysydd sy'n arbennig o bwysig yn eich barn chi:

- Natur
- Ansawdd aer
- Ansawdd dŵr

- Newid yn yr Hinsawdd
- Gwastraff ac ailgylchu
- Ynni
- Arall (nodwch)

C10 Gan feddwl am yr UN maes lles amgylcheddol sydd bwysicaf i chi, rhowch wybod i ni am eich hanes neu'ch profiad o ran pam y mae hyn o bwys?

OUR CULTURE AND WELL-BEING

Mae lles diwylliannol Abertawe'n canolbwyntio ar y ffordd rydym yn byw'n bywydau, y cysylltiadau cymunedol rydym yn eu gwneud, yr Iaith Gymraeg, traddodiadau, credoau a gwerthoedd rydym yn eu rhannu. Mae'n dathlu ein treftadaeth, ein tirwedd a'r gweithgareddau chwaraeon, hamdden a chelfyddydau rydym yn eu mwynhau.

C11 Dyma restr o ambell faes pwnc sy'n ymwneud â lles diwylliannol Abertawe. Ticiwch unrhyw un o'r meysydd sy'n arbennig o bwysig yn eich barn chi:

- Asedau diwylliannol (lleoedd a gweithgareddau)
- Y celfyddydau a threftadaeth
- Chwaraeon
- Y Gymraeg
- Cyfranogiad cymunedol a gwirfoddoli
- Hunaniaeth ddiwylliannol
- Crefydd
- Arall (nodwch)

C12 Gan feddwl am yr UN maes lles diwylliannol sydd bwysicaf i chi, rhowch wybod i ni am eich hanes neu'ch profiad o ran pam y mae hyn yn bwysig?

C13 A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am les yn Abertawe?

C14 ymlaen: *Cyswllt pellach a chwestiynau gwybodaeth Cydraddoldeb.*